Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

## Strategaeth | 2025

DEWRDER | WEITHREDU
TOSTURI | OFALU

# Cyflwyniad

Mae gennym gyfrifoldeb pwysig iawn i wasanaethu ac amddiffyn cymunedau De Cymru. Mae dros 1.5 miliwn o bobl yn dibynnu arnom; rhaid i ni eu cefnogi bob amser. Dyma ein strategaeth ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol sy'n disgrifio sut byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth.

Yn fras, rydym yn ceisio bod yn Wasanaeth Tân ac Achub rhagorol. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni hyn; sut y byddwn yn moderneiddio ac yn datblygu i fynd i'r afael â heriau heddiw, yn ogystal â'r rhai ymhell i'r dyfodol.

Ein pobl yw ein hased mwyaf. Maent yn ymroddedig, yn broffesiynol, ac maent yn gwasanaethu ein cymunedau yn anhunanol ddydd a nos, beth bynnag fo'r tywydd, beth bynnag fo'r her. Er mwyn cyflawni ein cenhadaeth a mynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol, mae angen i ni gydweithio fel un tîm cydlynol. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod

pwysigrwydd ein pobl ac yn eu gosod wrth galon yr hyn a wnawn, yn ogystal â bod yn ganolog i lunio ein dyfodol.

Rydym yn cynnig newidiadau a fydd yn gwella'r ffyrdd yr ydym yn byw, yn gweithio ac yn rhyngweithio â'n gilydd yn ogystal â'r cyhoedd a'n partneriaid ar draws De Cymru a thu hwnt. Bydd hyn yn ein helpu i ddod yn rhagorol a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i'n cymunedau.

## Ein Gweledigaeth

Cydweithio fel un tîm i fod yn Wasanaeth Tân ac Achub rhagorol, gan amddiffyn De Cymru heddiw, gan arloesi'n uchelgeisiol ar gyfer yfory.

## Ein Cenhadaeth

Gwasanaethu ein cymunedau, trwy leihau risg ac ymateb i argyfyngau.

## Ein Gwerthoedd

Datblygwyd ein gwerthoedd yn Dilyn ymghoriad helaeth â'n pobl. Maent yn darparu'r fframwaith gytunedig I NI allu gwasanaethu ac amddiffyn EIN cymunedau'n effeitiol yn Ne Cymru. Dyma nhw:: **Tosturi, Dewrder, Parch, Uniondeb** a **Rhagoriaeth.**

- Rydmyn yn gweithredu gyda **thosturi**
- Rydym yn defnyddio **dewrder** moesegol a chorfforol wrth ymdrin â sefyllfaoedd.
- Rydym yn **parchu** ein gilydd, ein partneriaid a'r cyhoedd yr ydym y neu gwasanaethu
- Rydym yn gweithredu gydag **uniondeb** I gyrraedd **rhagoriaeth** ym mhopeth a wnawn

Mae ein harwyddair yn crynhoi hyn oll sef:

**DEWRDER | WEITHREDU TOSTURI | OFALU**

**Diwedd:** Er mwyn gwireddu'r weledigaeth a'n cenhadaeth byddwn yn cyflawni pob un o'r nodau strategol canlynol. Ategir y rhain gan gynlluniau manwl gydag amserlenni a'r adnoddau gofynnol.

- Datblygu llywodraethu, polisïau a gweithdrefnau eglur
- Harneisio'r datblygiadau mewn technoleg ddigidol i'w cyflawni gwasanaeth modern, digidol rhagorol, fforddiadwy ac wedi'i ddiogelu at y dyfodol
- Cyflawni rhagoriaeth weithredol trwy alluoedd atal, amddiffyn ac ymateb diogel, effeithiol a phendant
- Cydweithio fel un tîm
- Meddu ar ymagwedd sy'n canolbwyntio ar bobl ym mhopeth a wnawn
- Datblygu arweinwyr rhagorol, grymus ac anhunanol
- Dod yn wasanaeth sy'n dysgu, esblygu'n gyson ac yn uchelgeisiol
- Dilyn diwylliant cyfiawn, a seilir ar ein gwerthoedd, i ganiatáu i'n pobl adeiladu timau sy'n perfformio'n dda
- Datblygu dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu rhagorol gyda'n staff, partneriaid a chymunedau
- Ysgogi cynaliadwyedd a lleihau ein heffaith amgylcheddol

## Datblygu llywodraethu, polisïau a gweithdrefnau eglur

Gwyddom mai llywodraethu clir yw ein sylfaen ar gyfer llwyddiant. Mae hwn yn rhoi strwythur sy'n ein galluogi i ddangos atebolrwydd a thryloywder, gan ennyn hyder yn ein gallu i ganolbwyntio ar bethau o bwys, a'n bod o ddifri wedi dysgu gwersi'r gorffennol.

- Parhau i weithredu'n gyflym ein Rhaglenni Cam Ymlaen ar gyfer Llywodraethu a Pholisi a Gweithdrefnau. Rydym yn ceisio sefydlu ymagwedd 'gallu gwneud' ar draws y gwasanaeth. Bydd hyn yn bosibl drwy bolisïau sy'n nodi ac yn rheoli risg wrth ganiatáu i ni ryddhau ein potensial.
- Datblygu model gweithredu sy'n rhoi cyfeiriad strategol ac sy'n cefnogi darpariaeth weithredol ragorol ar gyfer popeth sydd angen i ni ei wneud wrth wasanaethu ein cymunedau
- Sefydlu Swyddfa Rheoli Rhaglen i gefnogi a gwreiddio newid a gwelliant, ynghyd â gwell sicrwydd gwasanaeth ar gyfer gweithrediadau a gwasanaethau corfforaethol.
- Sefydlu rhaglen effeithlonrwydd i roi gwerth am arian i'r trethdalwr ac eithafu'r modd yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau yn y modd mwyaf effeithiol wrth i ni foderneiddio.

## Harneisio datblygiadau technoleg ddigidol i ddarparu gwasanaeth digidol rhagorol, fforddiadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Mae technoleg ac offer a sgiliau digidol yn datblygu'n gyflym, gan arwain at y '4ydd Chwyldro Diwydiannol'. Yn yr oes ddigidol hon, mae'n bryd i ni osod data a digideiddio wrth wraidd ein gweithgareddau. Dyma'r adeg i gychwyn newid digidol i ddarparu gwasanaeth modern, effeithiol, gwell o ran bod yn fforddiadwy a mwy ymatebol i'n cymunedau.

- Adeiladu sylfaen digidol sy'n harneisio datblygiadau mewn technoleg, cofleidio seiberddiogelwch, defnyddio data mawr a chyfrifiadura cwmwl, ac yn manteisio ar systemau digidol ar gyfer diogelwch a chyfathrebu.
- Datblygu Melin Drafod Tân ar gyfer y Dyfodol i sefydlu dull cysyniadol i gyflwyno ein gwasanaeth. Technoleg a data fydd yn llywio'r ffordd yr ydym yn edrych i'r dyfodol gyda dealltwriaeth dda o 'pam, beth a sut' ein cenhadaeth.
- Datblygu systemau a dulliau cudd-wybodaeth a gwyliadwriaeth er mwyn bod ar y blaen mewn byd cyfnewidiol, gan gynnwys yr heriau a'r bygythiadau a wynebwn gan ddefnyddio data, digideiddio a thechnoleg i amddiffyn ein cymunedau a'n personél.

## Cyflawni rhagoriaeth weithredol trwy alluoedd atal, amddiffyn ac ymateb diogel, effeithiol a phendant

Rydym am fod yn rhagorol ym mhopeth a wnawn, gan weithio gyda'n gilydd i fod yn ddiogel, amddiffyn ein cymunedau, edrych ymlaen ac arloesi ar gyfer y dyfodol.

Gan gynnal bwriad pendant, a dysgu ac addysg yn llywio ein huchelgais, byddwn yn gosod y safonau uchaf oll wrth gefnogi a grymuso ein pobl i fod yn rhagorol wrth weithredu. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar edrych ymlaen, cadw'n gyfredol â newid a rhannu ein cynnydd ag eraill. Byddwn yn newid ein diwylliant drwy symud o fod yn wasanaeth oedd dan fai iwasanaeth gyda 'Diwylliant Cyfiawn' Bydd hyn yn gwella ein heffeithiolrwydd gweithredol. Bydd hefyd yn cefnogi mwy o gyfrifoldeb personol ac ymgrymuso, gan annog ein pobl i siarad am ddiogelwch, cydymffurfiaeth a pherfformiad.

- Datblygu system ddiogelwch ar lefel strategol sy'n harneisio'r 'Diwylliant Cyfiawn' i nodi a rheoli risgiau, darparu sicrwydd, cynnal cydymffurfiaeth a chaniatáu i wersi gael eu nodi a'u cymhwyso ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol.
- Deall, lliniaru a rheoli risg i wella effeithiolrwydd gweithredol trwy ddefnyddio mewnwelediadau data gan system adrodd well.
- Adolygu'n gyflym, ein hymagwedd at flinder, diheintio a risgiau i fywyd.

- Cydweithio ar draws y gwasanaeth, a gydag eraill ill ddau, i sicrhau cydymffurfiaeth ag adolygiadau yn ogystal â gwersi thematig cenedlaethol, gan ganiatáu i ni ddatblygu cynlluniau cadarn lleol yn seiliedig ar ffactorau ac anghenion cymunedol.
- Adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau i leihau biwrocratiaeth a sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoliadol yn ein holl weithgareddau gweithredol.
- Ymgysylltu a chyfathrebu â grwpiau allweddol o bobl i gasglu data a mewnwelediadau i weithio gydag eraill i leihau risg i bobl yn ein cymunedau trwy ddatblygu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol.
- Canolbwyntio ar welliannau i Reoli Tân trwy law prosiect pwrpasol, gyda chanlyniadau diffiniedig i wella moesol, sefydlogi cadw, datrys anghysondeb telerau ac amodau.

## Cydweithio fel un – 'Un Tîm Un Genhadaeth'

Gan weithio gyda'n gilydd, yn canolbwyntio ar genhadaeth a rennir, byddwn yn cyflawni fel un tîm. Byddwn yn rhoi'r profiad gorau i'n pobl drwy osod parch a thosturi wrth wraidd pob penderfyniad. Byddwn yn ysbrydoli meddwl blaengar, yn meithrin brwdfrydedd dros yr hyn sy'n bosibl, ac yn ymddiried yn ein timau i oresgyn heriau.

Byddwn yn buddsoddi yn ein pobl, er mwyn i bob un ohonom deimlo'n falch o fod yn rhan allweddol o'r gwasanaeth. Bydd pob un yn cofleidio'r ffordd o feddwl: rwy'n deall yr hyn yr ydym yn ei gwneud, mae hi'n agos at fy nghalon, rwy'n teimlo'n rhan ohoni, ac rwy'n falch o'r hyn yr ydym yn ei chyflawni gyda'n gilydd.

- Datblygu ymagwedd 'Un Tîm, Un Genhadaeth' at bopeth a wnawn fel bod ein pobl yn deall ein bod i gyd yn dibynnu ar ein gilydd i gyflawni ein cenhadaeth bwysig i amddiffyn ein cymunedau.
- Lansio, ymwreiddio a chynnal ein cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd newydd ar draws popeth a wnawn ac ym mhob pwynt cyswllt allweddol gyda'n pobl trwy eu taith fel gweithiwr.
- Datblygu rhaglen wedi'i threfnu o staff corfforaethol sy'n gweithio mewn gorsafoedd i wella cyd-ddealltwriaeth.
- Ymgorffori cyfathrebu strategol ym mhopeth a ddarparwn fer mwyn i'n cydweithwyr deimlo eu bod yn cael eu hysbysu a'u hymgysylltu a deall pa mor allweddol yw eu rhan i lwyddiant y gwasanaeth.

## Meddu ar ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar Bobl ym Mhopeth a wnawn

Gan gynnal bwriad pendant, rhaid i ni adfer y safonau uchaf o ran ymddygiad a phroffesiynoldeb i'r gwasanaeth a grymuso ein pobl i ymdrechu am ragoriaeth. Mae'r ffordd y mae ein pobl yn teimlo, meddwl a gweithredu er mwyn cyflawni yn hanfodol i lwyddiant ein gwasanaeth. Ni allwn wneud dim heb eu cefnogaeth. Rhaid bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a rhaid i ni adeiladu gwasanaeth y maent yn haeddiannol falch ohono.

- Cyflawni'r argymhellion y manylir arnynt yn Adolygiad Diwylliant Annibynnol Fenella Morris CB

  Gosod safonau a disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad cadarnhaol i feithrin ymddiriedaeth a theyrngarwch. Rhaid i ni i gyd fyw a gweithio yn ôl ein gwerthoedd gyda'n harweinwyr yn gosod esiampl.

  Darparu eglurder ar ddisgwyliadau ymddygiadol a phrosesau sy'n diffinio ffyrdd o weithio.

  Cydnabod cyfraniadau, ymroddiad, gwasanaeth a llwyddiannau ein pobl trwy wobrau lleol a chenedlaethol.
- Sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer cyflwyno dyfyniadau, eu dilysu a'u prosesu

  Annog adborth fel bod ein staff yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, gan barhau i wella trwy gynnal arolygon, grwpiau ffocws, Adolygiadau Personol blynyddol a mecanweithiau adrodd cyfrinachol.
- Rhoi cyfleoedd i'r cyrff cynrychioliadol ar amrywiaeth o lefelau i gynrychioli eu haelodau fel rhan o'n dull partneriaeth gymdeithasol.

- Sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth gwych i'n cymunedau trwy ddatblygu athroniaeth arweinyddiaeth a dilyniant sy'n addas ar gyfer gwasanaeth tân ac achub modern.
- Hyrwyddo amrywiaeth, diwylliant a chynhwysiant i sicrhau bod ein holl bobl yn gwbl gyfforddus yn ein sefydliad a bod pawb yn teimlo'n rhan o un tîm sy'n wirioneddol gydlynol
- Cefnogi talent ac uchelgeisiau ein holl bobl gyda llwybrau eglur ar gyfer datblygu a hyrwyddo a buddsoddi yn ein pobl i hyfforddi a datblygu ar gyfer rolau a phroffesiynau arbenigol.
- Cefnogi ein pobl i fod yn iach ac yn dda o ran llesiant trwy iechyd a diogelwch yn y gweithle, gan roi lles ein pobl wrth galon y ffordd rydym yn gweithio a chydnabod cydbwysedd cefnogi pobl i weithio mewn amgylchedd sy'n gweddu orau i'w hanghenion er mwyn cyflawni eu rolau'n llwyddiannus
- Datblygu agwedd gynaliadwy ar gyfer gweithio hyblyg, gan ddechrau gyda pholisi eglur sy'n annog ein pobl i gydweithio gyda dealltwriaeth a pharchu'r rhan pawb.
- Cydnabod cyfraniad teuluoedd, ffrindiau, cydweithwyr wedi ymddeol a phobl yn ein cymunedau wrth gyflawni ein pwrpas craidd. Byddwn yn ceisio bod yn wasanaeth llawer mwy cyfeillgar i deuluoedd.
- Creu cysylltiadau cryfach a datblygu cydnabyddiaeth ddyfnach o'u cefnogaeth gan feithrin ymagwedd well at ddigwyddiadau cymunedol ac ymgysylltu.
- Sefydlu dull newydd o ymdrin â disgyblaethau a chwynion drwy ddarparu ymyrraeth gynnar, cyfryngu, cymorth a hyfforddiant arweinyddiaeth i ymdrin â materion cyn gynted â phosibl. Sefydlu Uned Safonau Proffesiynol newydd i ymdrin ag achosion disgyblu a chwyno.

## Datblygu arweinwyr rhagorol, grymus

Daw ein hymrwymiad i newid a rhagoriaeth weithredol o angerdd ein harweinwyr i arwain y ffordd a bod y gorau oll. Mae arweinwyr grymus yn esgor ar dimau cryf, uchel eu perfformiad sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bawb.

- Gosod safonau clir ar gyfer arweinyddiaeth. Gyda chefnogaeth arbenigwyr arweinyddiaeth ac academaidd, byddwn yn sefydlu academi arweinyddiaeth, hyfforddiant a datblygiad personol i'n helpu i harneisio potensial ein pobl ar gyfer arweinyddiaeth.
- Adnabod a meithrin talent i roi sylfaen gref ar gyfer ein llwyddiant yn y dyfodol.

  Cyflwyno Melin Drafod Tân arloesol i ymgorffori athroniaeth newydd o arweinyddiaeth rymus a dilyniant ymroddedig.
- Darparu addysg a hyfforddiant i'n harweinwyr, ar bob cam o'u gyrfaoedd.
- Nodi llwybr datblygu clir i'n pobl ddod yn arweinwyr strategol yfory.

## Bod yn wasanaeth uchelgeisiol, sy'n dysgu a datblygu'n gyson

Mae dysgu a rhagoriaeth sy'n ysgogi ein huchelgais. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar edrych ymlaen a byddwn yn gyfredol â newidiadau. Byddwn yn rhannu ein cynnydd ag eraill a dysgu arfer gorau ganddynt. Byddwn yn ostyngedig er mwyn i ni allu dysgu o ddifrif. Byddwn yn adrodd yn ôl onest am yr hyn a wnawn. Byddwn hefyd yn dysgu gwersi o'n camgymeriadau er mwyn gwella yn y dyfodol. Byddwn yn ymdrechu i archwilio'r ymchwil diweddaraf a nodi'r tueddiadau a fydd yn effeithio arnom yn y dyfodol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gawn i addasu, moderneiddio a bod y gorau posib. Byddwn yn adennill ffydd a hyder yn ein gwasanaeth tân.

- Adolygu a gwella ein prosesau gwerthuso, adrodd yn ôl yn ogystal â dysgu gwersi i'n galluogi i adolygu a myfyrio a bod yn well fyth yn y dyfodol.
- Datblygu rhaglen brawf ar gyfer recriwtio mewnol a buddsoddi mewn addysg i gynyddu personél i swyddi allweddol.
- Gwella ein systemau arolygu a sicrhau gwasanaeth mewnol i gynnwys ymddygiad a diwylliant.

- Datblygu system ‘Hyrwyddwyr Gwelliant’ ym mhob tîm ac mewn gorsafoedd sy’n cefnogi arweinwyr tîm gyda’r safonau diogelwch, gweithredu, cydymffurfio a newid diweddaraf.
- Gweithredu swyddogaeth cudd-wybodaeth gwasanaeth cyfan sy’n ein helpu i fod yn barod ar gyfer digwyddiadau mawr, digwyddiadau amrywiol yn ogystal â diogelu seilwaith hanfodol.
- Hyrwyddo ymgysylltu â’r ymchwil a’r wybodaeth academaidd a phroffesiynol ddiweddaraf ar bob lefel ar draws y Gwasanaeth i sicrhau ein bod ar flaen y gad yn ein sector.
- Datblygu’r ffordd yr ydym yn dysgu oddi wrth sefydliadau eraill trwy fynychu cynadleddau, ymweld â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, datblygu cyfnewidiadau tymor byr ac ymgorffori pobl mewn sefydliadau eraill i ddysgu am addasu a newid gan eraill mewn modd gostyngedig.

## Dilyn diwylliant cyfiawn, yn seiliedig ar ein gwerthoedd, i ganiatáu i’n pobl adeiladu timau sy’n perfformio’n dda

Nid yw bob amser wedi bod yn hawdd, ac nid ydym bob amser wedi gwneud pethau’n iawn. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen gydag uniondeb byddwn yn creu diwylliant sy’n ceisio deall sut aeth pethau o chwith er mwyn gwella ar gyfer y dyfodol. Bydd atebolrwydd o fewn y system rydym yn ei chreu a byddwn yn ymateb mewn modd cyfiawn  i achosion lle nad ydym yn bodloni ein safonau newydd yn deg.

- Parhau gyda’n Rhaglen Camu Ymlaen ar gyfer gwerthoedd, ymddygiad a safonau ac ymgorffori’r gwaith ar draws pob maes o’r gwasanaeth.
- Symud o ddiwylliant sy’n cynnwys beio i ‘Ddiwylliant Cyfiawn’ yn seiliedig ar ymddiriedaeth a gonestrwydd, gan annog ein pobl i deimlo eu bod wedi’u grymuso i adrodd materion, methiannau agos a gwersi i’n galluogi i ddysgu o’r camgymeriadau a wnawn neu i fynd i’r afael â materion systemig o fewn y sefydliad.
- Datblygu system ‘FAiR’ dadansoddiad ar ffurf siart llif sy’n archwilio camgymeriadau yn deg a thrwy lens o dryloywder a gwelliant.
- Cysoni dysgu a datblygiad gan yr academi arweinyddiaeth â’r newidiadau i gefnogi rheolwyr a’u timau i fabwysiadu egwyddorion gwreiddio ‘diwylliant cyfiawn’.
- Cydnabod a dathlu llwyddiant ein pobl sy’n arwain y ffordd wrth wreiddio’r gwerthoedd a’r diwylliant yr ydym yn ymdrechu i’w hymgorffori trwy arweinyddiaeth, anrhydeddau a gwobrau anhunanol gweladwy.
- Rhoi llawer mwy o bwyslais ar agweddau cadarnhaol ein diwylliant gan gynnwys ein hanes a’n traddodiadau balch, ein symbolau, ein seremonïau a sut rydym yn ymgysylltu’n gymdeithasol. Mae’n rhaid i ni ddathlu’r rhai sy’n mynd gam ymhellach a chroesawu pobl newydd i’n sefydliad mewn ffordd briodol. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar gydnabod yr aberth y mae ein teuluoedd yn ei wneud.

## Datblygu dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu rhagorol gyda’n staff, partneriaid a chymunedau

Mae rhannu’r angerdd a chynnwys pawb ar y daith i newid angen cyfathrebu gwych sy’n ymgysylltu, ysbrydoli a rhoi eglurder am y rhan y mae pob un ohonom yn ei chwarae i feithrin dewrder i weithredu a thosturi i ofalu wrth wasanaethu ein cymunedau.

- Parhau’n gyflym â’r Rhaglenni Cam Ymlaen ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- Adeiladu strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu, a seilir ar ddata a thystiolaeth, i dargedu pryd a sut i ymgysylltu â’r cyhoedd a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill ill ddau i leihau risg i’r cyhoedd.
- Gwella mynediad i sianeli digidol, trwy ddyfeisiau personol, er mwyn i’n staff gael mynediad at wybodaeth o unrhyw le ar unrhyw adeg.

- Datblygu system raeadru i drosglwyddo gwybodaeth bwysig yn draddodiadol, er mwyn cynyddu atebolrwydd.
- Gwella diogelwch a llesiant y cyhoedd a darparu gwybodaeth glir, hygyrch ac amserol i addysgu a hysbysu'r cyhoedd, gan hyrwyddo diogelwch a hydwythdedd.
- Gwella diogelwch a lles y cyhoedd a darparu gwybodaeth eglur, hygyrch ac amserol i addysgu a hysbysu'r cyhoedd, gan hyrwyddo diogelwch a chydnerthedd.

## Hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau ein heffaith amgylcheddol

Rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan wrth greu Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, gan gydbwyso anghenion tymor byr â diogelu'r amgylchedd tymor hir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae gennym uchelgais feiddgar i wneud ein gorau i fyw mewn cytgord â natur.

- Canolbwyntio ar gynaliadwyedd a defnyddio technolegau gwyrdd sy'n dod i'r amlwg i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd
- Ymateb i argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wrth leihau ein heffaith amgylcheddol.
- Gweithio i leihau effaith newid hinsawdd drwy leihau a gwrthbwyso ein hôl troed carbon a chyflawni sero net erbyn 2030 yn unol â Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru: Allyriadau ac Argymhellion.

# Newid a Thrawsnewid: Camu Ymlaen

CAMAU YMLAEN

### Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Datblygu cyfathrebu ac ymgysylltu rhagorol, gyda'n staff, ein partneriaid a'n cymunedau.

### Trawsnewid Digidol

Bod yn uchelgeisiol wrth drawsnewid ein defnydd o ddata a'n gallu digidol a thechnoleg ym mhob maes, i ddarparu gwasanaeth tân ac achub modern, rhagorol yn ddigidol, fforddiadwy ac sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

### Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch

Ymwreiddio diwylliant teg, cynhwysol a chyfiawn o fewn GTADC trwy wella amrywiaeth, meithrin ymgysylltu staff, a sbarduno cynnydd mesuradwy o ran cynrychiolaeth gweithlu a chydraddoldeb.

### Moeseg, Gwerthoedd ac Ymddygiadau

Datblygu diwylliant cyfiawn a seilir ar ein gwerthoedd a'n moeseg i ddod yn dîm elitaidd gyda ffyrdd newydd o weithio.

### Llywodraethu a Strategaeth

Datblygu llywodraethu clir i redeg ein gwasanaeth gyda thryloywder i wasanaethu ein cymunedau.

### Arweinyddiaeth

Datblygu arweinwyr rhagorol, grymus ac anhunanol.

### Polisïau a Gweithdrefnau

Datblygu polisïau a gweithdrefnau cydlynol sy'n lleihau biwrocratiaeth, yn cydbwyso ein risgiau, yn grymuso ein pobl ac yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr.

### Amgylchedd Diogel a Chadarnhaol

Ymwreiddio diwylliant o ragoriaeth broffesiynol o fewn GTADC trwy feithrin diogelwch seicolegol, moderneiddio cyfleusterau, cryfhau cydnabyddiaeth, a sicrhau systemau cymorth cadarn.

### Rheoli Talent

Cydweithiwn fel un tîm gan ddarparu rheolaeth talent ardderchog, dilyniant gyrfa a datblygiad trwy ddull sy'n canolbwyntio ar bobl.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

**Nod:** Datblygu cyfathrebu ac ymgysylltu rhagorol, gyda'n staff, partneriaid a chymunedau.

Er bod cyfathrebu ac ymgysylltu yn gynhenid i bob prosiect, bydd y gweithgaredd hwn â ffocws yn gweld dwy elfen bwysig:

- **Cynnwys ac ymgysylltu** o fewn y Gwasanaeth a hefyd gyda'n cymunedau a rhanddeiliaid, gan fapio gweithgareddau a **chefnogi ymgysylltu** ar draws y sefydliad
- Yn ail, **cyfathrebu newid** - nid yn unig y newidiadau a gyflawnir ond ein **dyheadau ar gyfer y dyfodol** a'r newid yr ydym am ei wneud, gan ddatblygu ymrwymiad ar y cyd.

## Trawsnewid Digidol

**Nod:** Bod yn uchelgeisiol wrth drawsnewid ein defnydd o ddata a'n gallu digidol a thechnoleg ym mhob maes, i ddarparu gwasanaeth tân ac achub modern, rhagorol yn ddigidol, fforddiadwy ac sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Gan gydnabod pwysigrwydd **gallu data, digidol a thechnoleg** ym mhob maes gweithgaredd tân ac achub, a sut y bydd hyn yn **cefnogi newid diwylliannol**, bydd y prosiect hwn yn dod â rhai prosiectau cyfredol a rhai ynghyd i ddatblygu sgiliau a **thrawsnewid ein tirwedd ddigidol**. Bydd yn sicrhau cydgysylltu gweithgarwch ac yn sicrhau bod sgiliau a chapasiti yn cael eu datblygu yn ein systemau a'n **defnydd o ddata i lywio ein cynllunio**.

## Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Chyfiawnder

**Nod:** Ymwreiddio diwylliant teg, cynhwysol a chyfiawn o fewn GTADC trwy wella amrywiaeth, meithrin ymgysylltiad staff, a sbarduno cynnydd mesuradwy o ran cynrychiolaeth gweithlu a chydraddoldeb.

Bydd y prosiect hwn yn cyflawni ein dyhead am **Wasanaeth teg a chyfartal** drwy gefnogi gweithgarwch ar draws y rhaglen a datblygu **sylfaen dystiolaeth** i ddangos cynnydd. Bydd ffrydiau gwaith yn adeiladu ar weithgarwch DICE blaenorol wrth ddatblygu rhwydweithiau staff a **chefnogi niwroamrywiaeth**.

## Llywodraethu a Strategaeth

**Nod:** Datblygu llywodraethu clir i redeg ein gwasanaeth gyda thryloywder i wasanaethu ein cymunedau.

Bydd y prosiect hwn yn nodi'r strwythurau sydd ar waith i gefnogi newid ar hyn o bryd ac **yn ein paratoi ar gyfer heriau'r dyfodol**. **Bydd hyn** unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru gyda'r Comisiynwyr yn cynnig argymhellion am fodel ar gyfer llywodraethu yn y dyfodol. Bydd y prosiect hwn yn cyflwyno tair ffrwd waith:

- Sicrhau ein bod yn gadarn wrth gyflawni swyddogaethau statudol – mae hyn yn cyfeirio at swyddogaethau statudol yr Awdurdod Tân ac Achub, a nodir mewn deddfwriaeth. Disgwylir adolygiad o'r Fframwaith Cenedlaethol
- Tryloywder a chraffu, a fydd yn nodi ein prosesau'n glir drwy gynhyrchu gwybodaeth hygyrch ynghyd â ffyrdd newydd o weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r rhain
- Mae penderfyniadau a wneir ac a rennir yn estyniad o'r ddwy ffrwd waith gyntaf. Byddant yn cydnabod pwysigrwydd bod yn agored. Bydd y ffrwd waith hon yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel gywir, a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u gweithredu

## Arweinyddiaeth

**Nod:** Datblygu arweinwyr rhagorol, grymus ac anhunanol.

Bydd y prosiect hwn yn cael ei yrru gan yr Uwch Dîm Arwain ond bydd **yn cydnabod arweinwyr ym mhob maes a rôl ar draws y Gwasanaeth**.

- **Safonau arweinyddiaeth sicr** trwy feincnodi a chymhwyso Safonau Tân perthnasol, i ddangos arweinyddiaeth effeithiol o'r Gwasanaeth.
- I gefnogi arweinyddiaeth effeithiol, bydd rhaglen i **ddatblygu arweinwyr** yn sicrhau'r setiau sgiliau cywir. Bydd hyn yn cynnwys **'Academi Arweinyddiaeth'** blaengar.
- A ffrwd waith a fydd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth yn **pennu cyfeiriad** - gosod targedau a sbarduno gwelliant parhaus trwy weledigaeth glir a rennir.

## Polisïau a Gweithdrefnau

**Nod:** Datblygu polisïau a gweithdrefnau cydlynol sy'n **lleihau biwrocratiaeth, cydbwyso ein risgiau, grymuso ein pobl a rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr**.

Roedd swyddogaeth polisïau a gweithdrefnau yn glir yn Adroddiad yr Adolygiad Diwylliant, gan osod y ffiniau ar gyfer penderfyniadau a chamau gweithredu. Bydd y prosiect hwn yn gweld dull cyfannol yn cael ei fabwysiadu, gan fynd i'r afael â systemau yn ogystal â gweithdrefnau penodol.

- Bydd hyn yn dechrau gyda phrosesau effeithiol ar gyfer datblygu, cyhoeddi a monitro polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys mecanweithiau ymgynghori a monitro
- Bydd sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cyson yn mynd i'r afael â ffurf a hygyrchedd dogfennau, gan edrych ar y potensial i symleiddio a chyflymu wrth ddarparu llyfrgell ddogfenau eglur a chynhwysfawr
- Gyda chyfeiriad penodol sylweddol ac argymhellion ar gyfer ymdrin â chamymddwyn, byddwn yn sicrhau gweithdrefnau'n eglur a gweithredu prydlon ar faterion a godir a nodi eglur ar gyfer yr holl rolau wrth wraidd y gwaith hwn
- Er mwyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau'n cael eu gweithredu a'u gweinyddu'n effeithiol ac yn deg, bydd hyfforddiant a chanllawiau'n cael eu datblygu a'u cyflwyno

## Amgylchedd Diogel a Chadarnhaol

**Nod:** Gwreiddio diwylliant o **ragoriaeth broffesiynol** o fewn GTADC trwy feithrin diogelwch seicolegol, moderneiddio cyfleusterau, cryfhau cydnabyddiaeth, a **sicrhau systemau cymorth cadarn**.

Nod cyffredinol y rhaglen Camu Ymlaen, mae'r prosiect hwn yn cynnwys llawer o'r agweddau dyddiol y gweithle sy'n bwysig i ni. Dylem ddisgwyl – **cyfleusterau cynhwysol** sy'n ein helpu i gyflawni ein **gorau, rhoi cymorth** pan fydd ei angen arnom a'r **hyder i ofyn am y cymorth hwnnw**, yn ogystal â **chydnabod** gwaith da.

## Rheoli Talent

**Nod:** Cydweithio fel un tîm gan ddarparu rheolaeth talent ardderchog, dilyniant gyrfa a datblygiad trwy ddull sy'n canolbwyntio ar bobl.

Gyda **thrawsnewid Gwasanaethau Pobl** eisoes ar y gweill, mae'r prosiect hwn yn cynnwys taith yrfa lawn, gan adeiladu ar brosiectau eraill i ymgorffori ein gwerthoedd a'n diwylliant ym mhob cam. Bydd yn cynnwys llinynnau i sicrhau prosesau teg ym mhob pwynt ar hyd llwybrau gyrfa, gan ddisgrifio ac ystyried teithiau gyrfa a sut y gellir cefnogi dilyniant. Bydd ffocws penodol ar ddatblygu:

- Prosesau a chymorth ar Alwad
- Academi Prentisiaeth i'r rhai sydd ar ddechrau eu gyrfaoedd
- Datblygu ein prosesau recriwtio i gael ein cydnabod fel cyflogwr o ddewis, gan ddenu gweithlu amrywiol

# Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Dilynwch ni:

Designed and produced by Media and Communications ©2025 | J/N MC000771